

Wales
TUC
Cymru



Stori Sydyn

Pecyn Cymorth ar gyfer
Cynrychiolwyr Dysgu Undebau
Wales TUC Cymru

Ynglŷn â'r pecyn cymorth Stori Sydyn ar gyfer cynrychiolwyr dysgu undebau

Nod yr arweiniad hwn yw helpu cynrychiolwyr dysgu undebau lafur (CDU) yng Nghymru i ddefnyddio llyfrau Stori Sydyn mewn ffordd effeithiol i hybu darllen am bleser yn y gweithle.

Mae llyfrau Stori Sydyn yn adloniant byr a chyffrous. Maent yn llyfrau i bobl sydd eisiau darllen rhywbeth cyflym a hwyliog, ac maent yn ddelfrydol i'r rhai hynny sydd wedi colli'r arfer o ddarllen neu sy'n teimlo bod darllen yn anodd. Gall arferion darllen gwell arwain at fuddiannau eraill, ac fel CDU gallwch ddefnyddio'r llyfrau hyn fel ffordd o gyflwyno'ch hun i'ch aelodau cyfredol ac i aelodau newydd posibl. Gall hefyd fod yn ffordd ragweithiol o egluro eich rôl fel CDU ac i ddechrau trafod cyfleoedd dysgu â chydweithwyr nad ydych wedi dod i gysylltiad â hwy o'r blaen.

Cafodd yr arweiniad hwn ei ddatblygu mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru a TUC Cymru ar ôl ymgynghori â CDU ledled Cymru sydd naill ai'n defnyddio llyfrau Stori Sydyn eisoes neu a hoffai eu defnyddio fel dull ategol yn eu gwaith yn ogystal â dull recriwtio i ddenu aelodau newydd drwy weithgareddau darllen.

TUC yw llais Cymru yn y gwaith. Gyda 49 o undebau'n aelodau, mae TUC yn cynrychioli mwy na 400,000 o weithwyr. Rydym yn ymgynghori

dros delerau teg yn y gwaith a dros gyfiawnder cymdeithasol yma a thramor.

Mae'r prosiect Sori Sydyn yng Nghymru'n cael ei gydlyn gan Gyngor Llyfrau Cymru ac mae'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Mae pedwar teitl newydd yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn. Gydag un o bob chwe oedolyn yn dal i brofi anawsterau darllen, mae'r ymgyrch Stori Sydyn yn ymdrech i chwalu rhwystrau ac i gael Cymru i ddarllen drwy gynhyrchu llyfrau byr, gafaelgar sydd ar gael mewn llyfrgelloedd, siopau llyfrau ac ar-lein am ddim ond £1.

Meddai Angharad Sinclair, o Gyngor Llyfrau Cymru:

'Mae Stori Sydyn yn llyfrau byr, bachog gyda llai na 100 tudalen ym mhob un, ac maent wedi'u hysgrifennu'n arbennig ar gyfer pobl sydd am wella'u sgiliau a'u hyder wrth ddarllen. Drwy fabwysiadu dull o'r fath i annog darllen rydym yn gobeithio goresgyn unrhyw broblemau o ran diffyg hyder a dangos bod darllen yn gallu bod yn hwyl ac yn rhywbeth a all ysbrydoli pawb.'



Cynnwys:

Beth yw Stori Sydyn	4
Pam hyrwyddo Stori Sydyn?	4
Ym mha ffordd all Stori Sydyn fod yn rhan o fy rôl fel Cynrychiolydd Dysgu Undebau?	7
Sut all Cynrychiolwyr Dysgu Undebau wneud y gorau o Stori Sydyn?	8
Adborth ar lyfrau Stori Sydyn	16
Sut mae cael gafael ar lyfrau Stori Sydyn?	17
Adnoddau	19

Beth yw Stori Sydyn?

Chwaraeon, rhamant, hanes, teithio, gwyddoniaeth neu ddirgelwch – mae llyfrau Stori Sydyn yn ymdrin ag ystod eang iawn o bynciau.

Mae Stori Sydyn yn llyfrau byr, hawdd eu darllen gan awduron enwog fel Maeve Binchy, Ian Rankin a sêr o fyd chwaraeon fel Colin Jackson a Brett Johns.

Ers 2006, cafodd 97 o lyfrau eu cyhoeddi yng Nghymru fel rhan o brosiect Stori Sydyn/Quick Reads. Mae 46 o'r llyfrau hyn yn Gymraeg.

Maent yn storïau cyffrous yn Gymraeg a Saesneg ac nid ydynt yn cymryd llawer o amser i'w darllen. Maent yn berffaith i'r rhai hynny sydd wedi colli'r arfer o ddarllen neu sy'n cael darllen braidd yn anodd.

Pam rhoi cynnig ar Stori Sydyn?

Os ydych chi wedi colli'r awydd i ddarllen yn y gorffennol am fod y llyfr yn rhy hir, yn rhy fawr, neu am fod y print yn rhy fân – dyma'ch cyfle i roi cynnig ar rywbeth gwahanol.

Mae buddiannau hyrwyddo'r llyfrau hyn yn y gweithle'n fwy nag oeddech wedi'i ddychmygu ac maent yn cyd-fynd yn dda â syniad o hyrwyddo dysgu a sgiliau drwy ddulliau mwy 'meddal'.

Mae llyfrau Stori Sydyn yn cael effaith bositif ar agweddau tuag at ddarllen, hyder, llythrennedd ac ymgysylltu mewn darllen.

- Dywedodd 95% o'r rhai a ymatebodd i arolwg fod llyfrau Stori Sydyn wedi gwella agweddau tuag at ddarllen am bleser.
- Dywedodd 91% fod Stori Sydyn wedi gwella sgiliau llythrennedd.
- Dywedodd 86% eu bod wedi rhoi hwb i hyder.
- Dywedodd 58% fod o leiaf hanner eu dysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau eraill ar ôl darllen llyfrau Stori Sydyn.

Pam hyrwyddo Stori Sydyn?

Mae 1 o bob 8 oedolyn yng Nghymru'n cael trafferth gyda darllen ac nid yw chwarter y boblogaeth wedi darllen llyfr yn y 6 mis diwethaf.

Daw darllen â lluo o fuddiannau yn ei sgil, i fywyd gwaith a phersonol. Gall Stori Sydyn helpu pobl i fanteisio ar y buddiannau hynny.

Gall llyfrau Stori Sydyn helpu'r bobl hynny sy'n cael trafferth â'u darllen i wella eu sgiliau ac i ehangu eu geirfa. Gallant hefyd helpu rhai nad ydynt bron byth yn darllen i fynd i'r arfer.



Buddiannau darllen llyfrau



Beth yw buddiannau darllen?

Cyflogaeth a Photensial Enillion

Mae pobl sydd â sgiliau llythrennedd cryf 2.5 gwaith yn llai tebygol o fod allan o waith na rhai â sgiliau llythrennedd is.

Ar gyfartaledd mae pobl â lefel uwch o sgiliau darllen yn ennill 16% yn fwy o gyflog. Ar lefel yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol mae hyn yn golygu gwahaniaeth o £1.31 yr awr (cyfrifwyd yn 2019). Yn ôl lefel incwm aelwyd cyfartalog mae hynny'n wahaniaeth o fwy na £4,500 bob blwyddyn.

Iechyd

Mae cysylltiad agos rhwng sgiliau darllen da ac iechyd da. Mae pobl â llythrennedd gwael yn llai galluog i:

- Defnyddio gwybodaeth bwysig ar sut i gynnal ffordd iach o fyw.
- Cael gafael ar wybodaeth am symptomau a phryderon ynghylch eu hiechyd.
- Rheoli cyflyrau sydd arnynt eisoes.

Mae gweithgarwch o ddydd i ddydd darllenwyr gwael hefyd dair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'i gyfyngu gan salwch na rhai â sgiliau darllen da.

Llythrennedd Digidol

Mae llythrennedd digidol yn cyfeirio at y sgiliau sydd eu hangen ar bobl i fyw, dysgu, gweithio a chymryd rhan mewn cymdeithas lle mae mwy a mwy o wasanaethau a chyfleoedd ar gael ar-lein yn unig. Mae bron i un o bobl pum person oedran gweithio yng Nghymru heb y sgiliau hyn – nifer sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y DU (13% dyfynnwyd gan Lywodraeth Cymru – Cyhoeddiad Cynhwysiant Digidol)

Ni ellir disgwyl i rywun fod â llythrennedd digidol os nad oes ganddynt sgiliau darllen da. Tan i ni wella sgiliau darllen yng Nghymru bydd cannoedd o filoedd o bobl sy'n gweithio'n parhau i fethu ag elwa ar fuddiannau gwasanaethau digidol

Grymuso

Mae sgiliau darllen gwell yn ennyn mwy o hunan-barch a mwy o uchelgais. Wrth i sgiliau darllen pobl wella, bydd eu huchelgais a'u hawydd i fanteisio ar gyfleoedd addysgol hefyd yn cynyddu.

Helpu Plant

Os nad oes gan oedolyn safonau darllen digonol, ni fyddant yn gallu helpu eu plant â'u gwaith ysgol ac ni fyddant yn gallu annog eu plant i gyrraedd safonau darllen uchel eu hunain.

Anogaeth gan rieni yw un o brif ysgogwyr llwyddiant plant yn yr ysgol. Mae pobl ifanc sy'n cael llawer o anogaeth i ddarllen gan eu mam neu eu tad yn fwy tebygol o:

- Weld eu hunain fel darllenwyr.
- Mwynhau darllen.
- Darllen llawer.

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o hybu darllen yn y cartref yw os yw plant yn gweld eu rhieni'n darllen yn rheolaidd. Mae 47% o blant sy'n darllen ar lefel sy'n uwch na'u lefel ddisgwyliedig yn dweud eu bod yn gweld eu rhieni'n darllen llawer yn y cartref (NLT 2012 Family Report)

Gweithredu Gwleidyddol ac Undebau

Mae sgiliau darllen gwell yn rhoi mwy o allu i bobl i gael gafael ar wybodaeth ac i weld darlun cyflawn o'r hyn sy'n digwydd yn eu gweithle ac mewn cymdeithas. Mae'r cyfuniad o fwy o wybodaeth a mwy o hunan hyder a ddaw drwy ddarllen yn arwain at lefelau uwch o gyfranogi mewn gweithredu gwleidyddol ac mewn undebau.

Yn olaf, mae llythrennedd yn hawl. Mae'r hawl i addysg yn rhan allweddol o'r gwaith mae'r mudiad undebau llafur wedi ymgychu drosto ar gyfer ei aelodau. Mae cael cynrychiolwyr yn y gweithle'n galluogi'r undeb i negodi â chyflogwyr am fynediad gwell at gyfleoedd dysgu a mwy o gyfleoedd i bobl i wella a gwneud cynnydd.

Mae ymchwil wedi dangos nad yw cyflogwyr yn sylweddoli'r bylchau sydd yn sgiliau llythrennedd pobl – ac nid yw unigolion yn aml yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn y gweithle. Gall cynrychiolwyr dysgu undebau gau'r bwlch hwnnw yn eu gwybodaeth a sicrhau bod darpariaeth i bawb, ac ymdrech i sicrhau bod dysgu'n gwbl gynhwysol ac i wella cyfleoedd i aelodau i feddu ar well portffolio sgiliau a gwybodaeth.

Ym mha ffordd mae Stori Sydyn yn rhan o fy rôl fel Cynrychiolydd Dysgu Undeb?

Cynrychiolwyr Dysgu Undebau yw'r grym sydd wrth wraidd dysgu undebau. Maent yn helpu i ganfod ac i ddarparu cyfleoedd dysgu i aelodau undebau. Gallant hefyd awgrymu prosiectau a chynlluniau dysgu yn y gweithle i helpu gwaith ehangach yr undeb.

Fodd bynnag, mae CDU yn gwneud mwy na dim ond canfod a chael gafael ar gyrsiau addysg. Gallant weld lle mae cydweithwyr angen cymorth a chefnogaeth i wella sgiliau ac i fagu hyder.

Os ydych chi'n credu y byddai eich cydweithwyr yn elwa drwy wella eu sgiliau darllen, yna mae Stori Sydyn yn ffordd wych o'u helpu i ddechrau arni

ac i gyflwyno llyfrau i'r gweithle. Mae darllen yn helpu i fagu hunan hyder ac mae'n symbylu pobl. Mae'n cynnig y cyfle i ddarganfod cymaint mwy am fywyd ac mae'n agor ffyrdd newydd o feddwl a chyfathrebu.

Gall CDU hefyd ychwanegu at eu harbenigedd eu hunain gyda llyfrau Stori Sydyn. Gall rheoli a hyrwyddo Stori Sydyn wella eu sgiliau cymdeithasol a threfnu ac, yn y broses gall helpu CDU i ddysgu technegau newydd i'w hychwanegu at eu CV eu hunain a'u gwneud yn fwy cyflogadwy.



Sut all Cynrychiolwyr Dysgu Undebau wneud y gorau o Storiâu Sydyn?

Dyma rai syniadau ymarferol ar yr hyn y gallwch ei wneud i hyrwyddo Storiâu Sydyn a darllen yn gyffredinol.

Cynllun Cyfnewid Llyfrau / Llyfrgell

Crëwch fan lle gall cydweithwyr ddewis o blith llond bocs o lyfrau Stori Sydyn a llyfrau eraill sydd wedi eu rhoi. Mae poster a byrddau arddangos cardfwrdd ar gael gan Gyngor Llyfrau Cymru i farchnata'r llyfrau.

(Mae manylion cyswllt yng nghefn yr arweiniad hwn).

Gall y cynllun cyfnewid hefyd gynnwys papurau newydd, cylchgronau a llyfrau eraill sy'n cael eu rhannu. Ceisiwch sicrhau bod dewis da o ffuglen a llyfrau ffeithiol ar gael.

Penderfynwch gyda chydweithwyr ai'r bwriad yw sefydlu llyfrgell (lle bydd llyfrau'n cael eu darllen a'u dychwelyd) ynteu gynllun cyfnewid (lle gellir cadw'r llyfrau). Os byddwch yn penderfynu cael llyfrgell, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cadw cofnod o bwy sydd wedi benthycu beth.

Ffordd dda o annog pobl i ddewis y llyfrau yw drwy eu galluogi i roi adborth ac i rannu eu barn ar yr hyn maent wedi'i ddarllen. Mae argymhellion yn ffordd dda bob amser o annog pobl eraill, naill ai drwy system sgorio (e.e. pwyntiau allan o bump) neu ddatganiad byr a bachog ynglŷn â pham mae'r llyfr yn un gwerth ei ddarllen.'

Reading Ahead Challenge



Mae Reading Ahead yn brosiect DU gyfan sy'n annog darllenwyr llai hyderus i ddechrau mwynhau darllen ar yr un pryd â gwella eu sgiliau llythrennedd. Mae wedi bod yn weithredol ers 2006 ac mae dros 300,000 o bobl wedi cymryd rhan.

Y syniad yw bod y darlennydd yn dewis chwe darlenniad ac yn cofnodi eu cynnydd mewn dyddiadur. Gall y dewisiadau gynnwys pob math o destunau fel cerddi, geiriau caneuon, gemau a chylchgronau yn ogystal â llyfrau. Mae'r Storiâu Sydyn yn berffaith ar gyfer yr her hon.

Cewch ragor o fanylion ar sut i drefnu a chynnal Her Reading Ahead yn:

www.readingagency.org.uk/adults/quick-guides/reading-ahead



Gosodwch label gwag ar ddechrau pob llyfr i alluogi darllenwyr i roi marc allan o 10 a sylw un llinell i ddweud wrth bobl eu barn am y llyfr.


Maer'r adborth gan eich darllenwyr yn caniatáu i CDU i ddewis llyfrau sy'n addas ar gyfer eu grwpiau.

Dathliadau a Digwyddiadau Darllen Cenedlaethol

Pob blwyddyn mae sawl dathliad a digwyddiad yn cael eu cynnal i hyrwyddo darllen. Gall y dathliadau hyn fod yn anogaeth ddefnyddiol ar gyfer gweithgareddau yn y gweithle i hyrwyddo llyfrau Stori Sydyn.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn gallwch lawrlwytho adnoddau a deunyddiau ategol yn uniongyrchol o wefan y trefnwyr.

Gall union ddyddiad y digwyddiadau canlynol newid o flwyddyn i flwyddyn – felly gwiriwch y gwefannau am yr wybodaeth ddiweddaraf.




Diwrnod y Llyfr - www.worldbookday.com

Mae diwrnod y llyfr yn ddathliad blynyddol o lyfrau a darllen. Fel arfer, bydd yn digwedd yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth. Y Prif nod yw annog y plant i archwilio'r pleserau o ddarllen drwy roi cyfle

iddynt gael llyfr eu hunain.

Er bod y diwrnod wedi'i dargedu at blant yn bennaf, mae ganddo broffil uchel bob blwyddyn yn y cyfryngau ac mae'n rhoi cyfle gwyb i gynnal dathliad yn eich gweithle.

Cydllynir diwrnod y llyfr yng Nghymru (Dydd y Llyfr) gan Gyngor Llyfrau Cymru ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Cysylltwch â Chyngor Llyfrau Cymru am bosteri dwythieithog am ddim a syniadau am sut rydych ynh dathlu yn eich gweithle. (Manylion cyswllt ar gael ar diwedd y canllaw hwn)



Noson y Llyfr – www.worldbooknight.org

Dathlwyd Noson y Llyfr am y tro cyntaf y 2011 ac mae wedi'i hanelu at oedolion. Mae'r pwyslais ar ysbrydoli eraill i ddarllen mwy. Mae sefydliadau ac unigolion yn

cynnal digwyddiadau ar hyd a lled y wlad i ddathlu'r gwahaniaeth mae darllen yn ei wneud i'n bywydau.

Mae digwyddiadau'n amrywio o bartïon ar thema'r llyfr yn y cartref i gyfnewid llyfrau mewn swyddfeydd. Pob blwyddyn mae'r trefnwyr yn cynnig llyfrau am ddim i sefydliadau sy'n cynnal digwyddiadau.



Beth am drefnu arddangosfa o'ch darllenwyr gyda'u hoff lyfr neu wrth eu silff lyfrau? Byddai'n gwneud arddangosfa dda a bydd yn rhywbeth gweledol sy'n cynnwys eich cydweithwyr yn eich gweithgarwch darllen. Gellir cyhoeddi'r lluniau ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol (gyda chaniatâd y bobl yn y lluniau). #shelfies

Book Lovers Day

Cynhelir Book Lovers Day ar 9 Awst bob blwyddyn. Yn wahanol i'r dathliadau eraill a restrir yma, nid oes un corff neu dîm yn gyfrifol am y digwyddiad – mae'n cael ei gydnabod ledled y byd fel y diwrnod pan mae'n arferol i wneud amser i ddarllen ac i ddathlu pleserau darllen.

National Non-Fiction November

Mae National Non-Fiction November yn ddigwyddiad sy'n para drwy gydol mis Tachwedd i ddathlu llyfrau ffeithiol. Fel Diwrnod y Llyfr, mae pwyslais y digwyddiad ar hyrwyddo llyfrau a darllen ymhlith plant. Fodd bynnag, bydd digon o bobl yn gwybod am y gweithgareddau y bydd eu plant yn cymryd rhan ynddynt ac felly mae'n gyfle da i drefnu digwyddiadau yn y gweithle sy'n edrych ar themâu ffeithiol.

Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth – www.nationalpoetryday.co.uk

Mae Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth yn cael ei gynnal fis Hydref bob blwyddyn ac mae'n seiliedig ar thema wahanol bob blwyddyn. Mae wedi bod yn cael ei gynnal ers 1994 a'r nod yw ysbrydoli pobl ledled y DU i fwynhau, darganfod a rhannu cerddi. Estynnir gwahoddiad i bawb i gymryd rhan, boed hynny drwy drefnu digwyddiadau, arddangosiadau, cystadlaethau neu drwy gyhoeddi eich hoff linellau o farddoniaeth ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #nationalpoetryday.



Gallwch hefyd gysylltu hyrwyddo Stori Sydyn gyda gwyliau, dathliadau a digwyddiadau cenedlaethol eraill drwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft, gallech drefnu bod detholiad o lyfrau'n cael eu harddangos yn eich cornel ddarllen, yn llyfrgell eich gweithle neu'r man cyfnewid llyfrau i gyd-fynd â digwyddiadau fel:

Diwrnod Santes Dwynwen/Sant Ffolant Stori Sydyn gyda thema ramantus fel



Catch Me If You Can
by Beth Reekles



The Paratrooper's Princess
by Horatio Clare

Rygbi'r Chwe Gwlad – Stori Sydyn gan – neu'n ymwneud â sêr rygbi Cymru fel



Captain Courage
by Gareth Thomas



My Sporting Heroes
by Jason Mohammad



Lionheart
by Richard Hibbard



Reset Your Goals
by Jos Andrews
Featuring a chapter on 2019 Grand Slam star Josh Navidi

Clybiau Llyfrau

Mae clybiau llyfrau'n ffordd boblogaidd ac effeithiol o gael pobl i ddechrau ymddiddori mewn llyfrau ac maent hefyd yn creu ymdeimlad o gymuned sy'n seiliedig ar ddarllen.

Yr Asiantaeth Ddarllen (The Reading Agency) – elusen genedlaethol – mae ganddynt amrywiaeth o adnoddau gwych ynghyd â gwybodaeth ar sut i redeg clwb llyfrau llwyddiannus:

www.readinggroups.org







Dyma rai syniadau i'ch rhoi ar eich ffordd:

Hysbysebu a recriwtio: Defnyddiwch bosteri, taflenni, e-bost neu fewnwyd eich gwaith i hysbysebu'r cynlluniau i sefydlu clwb llyfrau i weld pwy sydd â diddordeb. Yn ddelfrydol, dylech gael tua wyth o bobl i ymuno. Bydd hyn yn ddigon fel arfer i gynnal trafodaeth dda ond bydd yn golygu hefyd y bydd pawb yn cael cyfle i siarad.

Amseriad: Dylai'r clwb ymdrechu i gwrdd bob mis. Os yw'r amser rhwng cyfarfodydd yn rhy fyr yna ni fydd pobl wedi cael cyfle i ddarllen y llyfr. Ond os yw'n rhy hir yna mae perygl y bydd pobl yn anghofio popeth amdano.

Lleoliad: Chwiliwch am rywle cymharol dawl i gwrdd lle bydd pawb yn gallu clywed ei gilydd. Gallai hyn fod yn ystafell staff, tafarn neu gaffi tawel, neu yn nhŷ rhywun.

Dewis llyfrau: Cymerwch eich tro i ddewis llyfr i'r aelodau ei ddarllen. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo eu bod yn perthyn a bydd yn sicrhau bod amrywiaeth dda o lyfrau'n cael eu dewis.

Cychwyn trafodaethau: Os hoffech gael grŵp gyda strwythur mwy ffurfiol gallech baratoi rhai cwestiynau cyn y cyfarfod. Gallai hyn helpu i sbarduno trafodaeth. Fodd bynnag, os yw'r grŵp yn un mwy anffurfiol gallech adael i'r sawl sydd wedi dewis y llyfr i arwain y drafodaeth. Gallai pwyntiau trafod gynnwys:

- Sut yr oeddech yn teimlo am y llyfr
- Hoff gymeriadau
- Rhannau mwyaf cofiadwy
- Cryfderau a gwendidau

Gwneud nodiadau: Bydd gwneud nodiadau wrth i chi ddarllen yn ei gwneud yn haws i chi gofio pethau am y llyfr sy'n golygu y bydd gennych chi fwy i'w ddweud yn y cyfarfodydd.

Gwnewch bethau gyda'ch gilydd: Mae clwb llyfrau'n fwy na dim ond trafod llyfrau. Gallech drefnu trip i weld addasiad ffilm o lyfr enwog neu fynd i sgysiau lleol gan yr awduron rydych wedi'u darllen.

Cyfryngau Cymdeithasol

Mae cyfryngau cymdeithasol yn cynnig amryw o ffyrdd sy'n galluogi pobl i gofnodi a thynnu sylw at eu cynnydd wrth ddarllen, i gysylltu â digwyddiadau

a gweithgareddau darllen, ac annog eraill i gymryd rhan.

Facebook



Er enghraifft, mi allech gael tudalen Facebook ar gyfer eich clwb darllen yn y gwaith lle gall pobl rannu syniadau, gofyn neu ateb cwestiynau i broblemau. Yn yr un modd, mi allech greu blog lle gall pobl gyhoeddi adolygiadau byr o lyfrau maent wedi'u darllen neu roi gwybodaeth am ddigwyddiadau arfaethedig.

Gallwch hefyd ddathlu digwyddiadau darllen cenedlaethol drwy gyhoeddi llun ohonoch eich hun gyda'ch hoff lyfr ar gyfryngau cymdeithasol. Cadwch olwg am gystadleuaeth #bookselfie Cyngor Llyfrau Cymru ar Ddiwrnod y Llyfr i gael cyfle i ennill hamper o lyfrau.

Twitter & Instagram



Gallwch ddefnyddio Twitter ac Instagram i gymryd rhan mewn digwyddiadau fel Diwrnod y Llyfr. Bydd gan bob un o'r digwyddiadau darllen a restrwyd uchod ei hashnod ei hun (e.e. #worldbookday). Drwy ddefnyddio'r hashnod, hwnnw gallwch gyhoeddi gwybodaeth am yr hyn rydych yn ei ddarllen, eich hoff lyfrau, neu'r gwahaniaeth mae darllen wedi'i wneud i'ch bywyd.



Gallwch greu tudalennau pwrpasol ar gyfryngau cymdeithasol a rhoi manylion am y dolenni ar eich hysbysfwrdd sy'n gwahodd pobl i ddilyn neu ymuno â'ch tudalen.

Byddem wrth ein boddau'n gweld engheifftiau o'ch tudalennau cyfryngau cymdeithasol felly anfonwch eich dolenni e-bost i: ahalpin@tuc.org.uk

Llyfrau ac Addasiadau Teledu

Mae llawer o lyfrau'n awr yn cael eu haddasu fel rhaglenni teledu a ffilmiau ac mae'r rhain yn ffordd dda o gael pobl i gymryd diddordeb yn y storïau gwreiddiol.

Gallech ddefnyddio ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ar gyfer ffilm neu addasiad teledu newydd i hyrwyddo'r llyfrau maent yn seiliedig arnynt ymhlith eich cydweithwyr. Os ydych chi'n rhedeg clwb llyfrau yn y gwaith, yna gallech awgrymu darllen llyfrau penodol ochr yn ochr â ffilmiau neu rhaglenni teledu sy'n cael llawer o sylw.



Gallech greu arddangosfa yn ymwneud â ffilm neu gyfres deledu sy'n cael eu dangos gyda delweddau o'r ffilm / cyfres deledu a lluniau o'r llyfr gwreiddiol. Gofynnwch am sylwadau am yr hyn maent yn ei hoffi am y ffilm/cyfres deledu. Gellir hefyd arddangos darnau o'r llyfr (dyfyniadau enwog ac ati) o amgylch y lluniau gyda manylion am unrhyw grwpiau darllen sydd gennych a'ch manylion cyswllt.

Appiau ar gyfer E-lyfrau

Kindle

kindle

Kindle yw un o'r appiau mwyaf poblogaidd ar gyfer darllen e-lyfrau ac mae llyfrau ar gael ym mhob categori o ramant i ffuglen, llyfrau ffeithiol, hanesyddol ac mae Kindle ar gael ar iOS ac Android ac mae opsiynau i brynu'r e-lyfrau yr hoffech eu darllen hefyd ar gael.

Nook



App am ddim poblogaidd arall ar gyfer darllen llyfrau. Mae rhyngwyneb y defnyddiwr yn un hawdd iawn i'w ddefnyddio ac mae hefyd yn cynnwys adran lle gallwch gael gafael ar gylchgronau, papurau newydd a chomics hefyd.

Ar gael mewn iOS ac Android

Goodreads



Mae llawer o lyfrau am ddim ar Goodreads yn ogystal â llawer o lyfrau i'w prynu, ac mae hwn yn ap poblogaidd dros ben i'r rhai sydd am gael rhai o'r argymhellion gorau. Gallwch hefyd gael gafael ar ddyfyniadau a chwarae gemau ac mae cronfa ddata enfawr o deitlau ar gael.

Ar gael mewn iOS ac Android

Adnoddau Ar-lein

Storïau Byrion Am Ddim Ar-lein

Mae llawer o wefannau sy'n cynnig storïau byrion byr am ddim mewn pob math o gategoriâu y gall eich aelodau eu darllen eu hunain neu gyda'u plant. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

www.bookbub.com

Mae BookBub yn cynnwys cynigion amser penodol ar gyfer y llyfrau am ddim gorau mewn dros ugain o gategoriâu, gan gyhoeddwy'r enwog ac awduron annibynnol uchel eu parch. Mae'r e-lyfrau am ddim hyn ar gael ar bob dyfais, gan gynnwys Kindle, Nook, iPad, ac Android

www.readprint.com

Mae ReadPrint yn adnodd am ddim ar y we lle gallwch ddarllen llyfrau cyfan am ddim ar-lein. Mae'r safle'n cynnwys 8,000 o deitlau gan 3,500 o awduron gan gynnwys enwogion fel Agatha Christie, Charles Dickens, Edgar Allan Poe, George Orwell a Jane Austen a llawer mwy.

Mae'r cyfleuster chwilio'n eich galluogi i bori'r safle mewn llawer o gategoriâu gan gynnwys storïau byrion.

Erbyn 2030 bydd yna... **Adnoddau Ar-lein Eraill**

7 miliwn

o bobl unig yn y grwp oedran 60+ yn unig.

ei chwarae i helpu i roi sylw i lawer o heriau mwyaf y

Comisiynodd yr Asiantaeth Ddarllen adroddiad gan y felin drafod annibynnol flaenllaw Demos sy'n disgrifio'r rôl flaenllaw y mae'n rhaid i ddarllen

gymdeithas ym Mhrydain yn ystod y degawd nesaf. Gallwch lawrlwytho copi o'r adroddiad ar wefan yr Asiantaeth Ddarllen yn yr adran 'Resources' o dan y teitl A Society of Readers. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys llawer o ystadegau a phwyntiau gwerthfawr sy'n cadarnhau pwysigrwydd darllen i wella'r hunan, iechyd meddwl a llesiant yn ogystal â gwella symudedd cymdeithasol a mynd i'r afael ag unigrwydd.


Rydym yn eich annog i ddarllen ac i rannu eich syniadau ar Twitter ac Instagram gan ddefnyddio'r hashnod #PowerOfReading

Gall dogfennau ac erthyglau o'r fath fod yn ddefnyddiol i gyfarwyddo'ch hun â themâu cyfredol yn y meysydd darllen a llythrennedd oedolion ac y gallwch eu rhannu â'ch Cangen, a gallant hwythau eich helpu gydag unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau y gallwch fod yn eu cynllunio.

Bydd y TUC yn ymdrechu i'ch diweddarw drwy ein gwefan a chylchlythyrau y bydd angen i chi danysgrifio iddynt. Cewch ragor o fanylion am hyn yn www.tuc.org.uk/wales

YouTube fel Adnodd i Gynrychiolwyr i helpu i hyrwyddo Darllen

Stori Sydyn: An Open Book



Stori Sydyn yn cyflwyno 'An Open Book', ffilm fer sy'n dathlu grym darllen. Mae 'An Open Book' yn cynnwys nifer o sêr ac awduron gan gynnwys Lily

Cole, Myleene Klass ac Andy McNab, sy'n siarad yn onest am eu perthynas â darllen – boed dda neu ddrwg.

Mae'r fideo hwn, 'An Open Book' ar gael i'w weld ar wefan Darllen Cymru yn yr adran Stori Sydyn.

<http://readingwales.org.uk/cy/quick-reads/videos/>

Os ydych chi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, byddai ychwanegu dolenni at fideos fel hwn yn ffordd effeithiol o gyfathrebu â ffrindiau a chydweithwyr drwy gyfrwng gwahanol ac mae ffordd o egluro'n weledol yr hyn rydych yn ei wneud.

Gall CDU ddefnyddio fideos fel y rhain i gasglu dyfyniadau positif i'w defnyddio pan fyddant yn siarad am ddarllen ag aelodau. Os oes gennych chi fan darllen neu hysbysfwrdd, gallwch ysgrifennu ac arddangos dyfyniadau sy'n disgrifio'r hapusrwydd a geir wrth ddarllen, yn ogystal â phriodoleddau positif darllen.

Daw'r dyfyniadau hyn yn uniongyrchol o'r fideo sy'n dangos brwdfrydedd rhai pobl wrth ddisgrifio darllen fel gweithgaredd:

"Roedd y llyfrau roeddwn yn eu darllen yn mynd â fi i rywle. Roeddent yn mynd â fi dros y môr, i fannau a oedd yn ymddangos yn llawer mwy cyffrous." (Larry Lamb-actor teledu a chyflwynydd radio)

"Rwyf yn darllen i anghofio am weddill y diwrnod. Rwyf yn darllen i ddianc." (Amanda Holden - Actores)

"Mae'r pleser a gewch wrth ddarllen yn un heb ei debyg." (Ben Shepherd-Cyflwynydd teledu)

"Mae'r profiad o ddarllen yn gallu bod yn un mor hyfryd; gall llenor da greu byd arall." (Lily Cole – Model ac Actores)

"Os cewch afael ar y stori iawn mae'n galluogi eich ymennydd i redeg yn gwbl wyllt." (George Lamb – Cyflwynydd teledu)

"Mae fel cael allwedd a datgloi byd cwbl newydd, gallwch fynd i unrhyw le" (Myleen Klass-Cerddor a Chyflwynydd)

"Weithiau bydd llyfr yn gwneud i mi chwerthin. Mae'n fy ysbrydoli, mae'n mynd â mi ar antur i le gwahanol. Byddai byd heb lyfrau'n fyd llwm iawn i fyw ynddo" (Barbara Taylor Bradford-Awdur)

Gellir defnyddio dyfyniadau eraill fel dyfyniadau sy'n ysbrydoli i annog darllen fel gweithgaredd 'cam gyntaf' i symud aelodau'n nes at wella eu sgiliau llythrennedd a'u sgiliau cyffredinol.

Adborth ar lyfrau Stori Sydyn o'r Gweithle

Doeddwn i ddim yn dda iawn yn yr ysgol. Doedd gan fy athro ddim llawer o amynedd gyda fi, felly roeddwn yn cymryd arnaf nad oeddwn yn malio ac wnes i erioed fwynhau darllen. Awgrymodd fy CDU fy mod yn rhoi cynnig ar lyfr Stori Sydyn am rygbi gan fy mod yn hyfforddi tîm lleol ar y penwythnos. Mi wnes i ei fwynhau ac rwyf wedi dysgu llawer o'r llyfr i helpu fy nhîm. Maen nhw'n meddwl mod i'n glyfar iawn!

Mae'n braf darllen ar y bws heb boeni bob pobl eraill yn gweld beth dwi'n ddarllen. Mae llyfrau Stori Sydyn fel unrhyw lyfr arall – nid llyfrau i ddysgwyr ydyn nhw!





Rwyf yn defnyddio Stori Sydyn fel rhan o fy nghwrs Sgiliau Hanfodol. Gallaf fynd yn ôl fy nghyfilymdra fy hun ac mae fy sillafu'n gwella'n arw.

Rwyf yn edrych ymlaen at sefydlu'r Cynllun Cyfnewid yn ein cantîn. Rydym yn gallu mynd â llyfrau adref i'w darllen ac wedyn dod â nhw'n ôl i'w cyfnewid â phobl eraill i glywed eu barn am y llyfrau maen nhw wedi'u cymryd. Mae gan ein CDU bapurau newydd a chylchgronau hefyd i'n annog i ddal ati i wella ein sgiliau.



**Sut allaf i gael
gafael ar lyfrau
Stori Sydyn?**

Llyfrau Bach – Storiâu Mawr



Small Books – Big Stories

Ar gael mewn siopau llyfrau, llyfrgelloedd ac ar-lein.
Available from bookshops, libraries and online.



 @storisydyn2019
@quickreads2019

darllencymru.org.uk
readingwales.org.uk



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
LLYFRAU AR-LEIN BOOKS ONLINE



Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Llyfrau Stori Sydyn



Rhif ISBN	Teitl	Awdur	Disgrifiad
9781783759361	My Sporting Heroes	Jason Mohammad	Jason Mohammad yn dewis ei hoff sêr o'r byd chwaraeon yng Nghymru – gan gynnwys ei arwr pan oedd yn fachgen, cyn reolwr Cymru Mark Hughes, Ryan Giggs, y Farwnes Tanni Grey-Thompson, y sêr rygbi Sam Warburton ac Ieuan Evans, y bocsiwr Joe Calzaghe a'r nofiwr David Davies.
9781784611118	Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf *Llyfr Cymraeg*	Gwyn Jenkins, Gareth William Jones	Hanes y Rhyfel Byd Cyntaf yn cael ei adrodd fesul blwyddyn, gan gyflwyno rôl y Cymru yn y Rhyfel.
9781784611125	Ar dy Feic *Llyfr Cymraeg*	Phil Stead	Yn y llyfr hwn ceir profiadau beiciwr o Gymru ar ei deithiau yng Nghymru a Ffrainc, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i fyd poblogaidd seiclo. Mae'r awdur yn disgrifio sut mae seiclo wedi ei helpu i oresgyn rhai o'r anawsterau a achoswyd gan salwch.
9781784611132	O'r Llinell Biced I San Steffan *Llyfr Cymraeg*	Sian James, Alun Gibbard	30 mlynedd yn ôl, chwaraeodd Siân James rôl allweddol yn Streic y Glowyr fel trefnydd ceginau bwyd a oedd yn bwydo glowyr ar streic a'u teuluoedd. Cafodd ei hethol yn AC Dwyrain Abertawe yn 2005 ac fe'i portreadwyd yn y ffilm ddiweddar 'Pride', bydd yn ymddeol ar ôl deng mlynedd yn y swydd.
9781784611149	Bryn y Crogwr *Llyfr Cymraeg*	Bethan Gwanas	Stori afaelgar am feddyg coed sy'n cael profiadau rhyfedd wrth iddo drin hen goeden dderw sy'n dyddio o wrthryfel Owain Glyndŵr.
9781784612474	Y Gosb *Llyfr Cymraeg*	Geraint Evans	Ar ôl i Erin gael ei threisio mae'n benderfynol o ddod o hyd i'r treisiwr a'i gosbi, ond mae'n gwneud un camgymeriad mawr, a rhaid i'r Ditectif Gareth Prior a'i dîm ymchwilio. Nofel dditectif fer a chyffrous.
9781784612481	Gorau Chwarae Cydchware *Llyfr Cymraeg*	Dylan Ebenezer	Ymunwch â'r awdur Dylan Ebenezer wrth iddo ail-fyw'r cyffro ymhlith cefnogwyr pêl droed Cymru wrth iddynt ennill eu lle yng nghystadleuaeth Ewro 2016. Cydymaith perffaith i gefnogwyr pêl droed, gan gynnwys rhestr ddwyieithog o dermau pêl droed.
9781784613785	Y Stelciwr *Written in Welsh*	Manon Steffan Ros	Mae Einir yn chwilio am bartner ar-lein, heb sylweddoli ei fod yn byw yn yr un stryd. Mae'n cael ei rhwydo a'i thwylio gan y stelciwr.
9781784613792	Rhwng y Pyst – Hunangofiant Owain Fon Williams *Written in Welsh*	Owain Fon Williams, Lynn Davies	Mae Owain Fôn Williams yn aelod o garfan pêl droed Cymru ac yn y llyfr hwn yn y gyfres 'Stori Sydyn', cawn ein tywys y tu ôl i'r llenni yn ystod llwyddiant y tîm yng nghystadleuaeth Ewro 2016 yn Ffrainc. Ond rydym hefyd yn dysgu llawer mwy am y golwr o Ben-y-groes - mae hefyd yn gerddor ac yn artist, ac yn Gymro i'r carn.
9781784615468	Brett Johns – Ymladdwr *Llyfr Cymraeg*	Brett Johns, Alun Gibbard	Cyrol sy'n rhoi cipolwg i ni ar baratodau dwys Brett Johns, yr ymladdwr cawell sydd yn yr 13eg safle yn y byd, ac yn bencampwr MMA (Mixed Martial Arts) diguro.
9781784615475	Arwyr Cymru *Llyfr Cymraeg*	Jon Gower	Llyfr sy'n cyflwyno storïau am 13 o arwyr Cymreig, rhai enwog a rhai heb fod mor enwog: Betsi Cadwaladr, Dic Penderyn, Griffith Jones, Gwenllïan (Tywysoges Cymru), Hedd Wyn, Iolo Morganwg, Jemeima Niclas, Merched Beca, Owain Glyndŵr, Twm Siôn Cati, W. H. Davies, William Williams a'r Siartwyr.
9781784616991	Y Goliau a'r Dagrau- Stori Natasha Harding *Llyfr Cymraeg*	Dylan Ebenezer	Dyma hanes Natasha Harding, sydd wedi bod yn aelod o dîm pêl droed merched Cymru ers nifer o flynyddoedd. Ers dechrau chwarae yn yr ysgol gynradd ac wedyn yn Ysgol Cwm Rhymni, mae wedi profi rhagfarn ond mae hefyd wedi gweld newidiadau mawr wrth i broffil pêl droed rhyngwladol merched godi.
9781784617004	Wil ac Aeron *Llyfr Cymraeg*	Heulwen Ann Davies	Hanes cyfeillgarwch Wil ac Aeron ers eu plentyndod yn Nyffryn Dyfi. Dechreuodd y ddau berfformio ac ysgrifennu sgriptiau ar gyfer eu Clwb Ffermwyr Ifanc lleol ac arweiniodd hyn at wahoddiad i gyflwyno rhaglen deledu o'r Sioe Frenhinol. Ers hynny maent wedi cyflwyno nifer o gyfresi radio a theledu.
9781786152459	Rugby Dads	Jos Andrews	Bod yn dad da – ar ac oddi ar y cae. Gyda storïau personol, teuluol gan sawl cenhedlaeth o chwaraewyr rygbi a'u plant, ynghyd ag awgrymiadau ar sut i ddelio â straen a phwysau swydd gystadleuol ac egniol a bywyd teuluol. Mae'r llyfr hwn yn rhoi gwedd wahanol ar rygbi.

9781786152961	Stargazers	Phil Carradine	Mewn gwladwriaeth yn y Dwyrain Canol, mae Yaniv yn bwriadu dilyn ei dad ôl troed ei dad drwy fod yn filwr – mae am deithio, cael bywyd anturus a pharch. Felly, mae'r cynnig i hebrwng criw o seryddwyr ar daith llawn dirgelwch yn gyfle rhy dda i'w golli. Ond nid yw pethau mor syml ag maent yn ymddangos ar yr olwg gyntaf.
9781786155474	Gun Shy – The Story of the Army Dog Scared of War	Angie McDonnell	Stori wir am gyfeillgarwch arbennig a ddechreuodd wrth ddianc rhag y bwledi yn rhyfeloedd Affganistan ac sy'n gorffen yn hapus lle mae un o'r ddau'n rhedeg ar ôl peli ar draethau De Cymru.
9781847711120	Bywyd yn y Coal House *Llyfr Cymraeg*	Y Teulu Griffiths, Alun Gibbard	Profiadau'r teulu Griffiths o Aberteifi, un o'r teuluoedd yng nghyfres gyntaf 'Coalhouse' ar BBC Cymru. Adargraffiad: cyhoeddwyd gyntaf Chwefror 2009.
9781847711724	Jamie – Y Llew yn Ne Affrica *Llyfr Cymraeg*	Jamie Roberts, Lynn Davies	Dilynwyd flwyddyn ryfeddol Jamie Roberts gyda thîm rygbi Cymru a'r Llewod yn 2009. Mae Jamie hefyd yn astudio i fod yn feddyg; mae'r llyfr yn edrych sut mae Jamie yn cyfuno ei astudiaethau gyda'u statws fel un o brif arwyr y bêl hirgron yng Nghymru.
9781847711731	Ali Yassine – Llais yu Adair Gleision *Llyfr Cymraeg*	Ali Yassine, Alun Gibbard	Hunangofiant un o gefnogwyr selocaf Cardiff City. Llyfr am bêl droed ond hefyd am gymeriad diddorol o gefndir Arabaidd. Ali Yassine oedd y llais y tu ôl i'r microffon ym Mharc Ninian, ac sy'n awr yn diddanu'r dorf yn Stadiwm Dinas Caerdydd.
9781847711748	Cymru Howard Marks *Llyfr Cymraeg*	Howard Marks, Alun Gibbard	Ganwyd Howard Marks ym Mynydd Cynffig ond nid oedd ganddo lawer o gydymdeimlad tuag at Gymru a'r Gymraeg. Pan gafodd ei garcharu yn yr UDA nid oedd gan ei famwlad lawer o gydymdeimlad tuag at yntau ychwaith. Fodd bynnag, ers ei ryddhau mae ei berthynas â'i wlad enedigol wedi newid.
9781847711755	Hiwmor Nigel *Llyfr Cymraeg*	Nigel Owens	Casgliad o jôcs gan Nigel Owens, y dyfarnwr rygbi enwog o Bontyberem. Mae'r llyfr hefyd yn cynnwys storiâu digrif (ac ambell gyfrinach!) am gyfresi S4C series, 'Bwrw'r Bar' a 'Jonathan'.
9781847712950	Hartson	John Hartson, Lynn Davies	Hunangofiant John Hartson, un o beldroedwyr gorau Cymru, a frwydrodd yn erbyn canser yn 2009.
9781847712967	Cymry Man U *Llyfr Cymraeg*	Gwyn Jenkins	Mae Man U yn un o glybiau pêl droed enwocaf y byd ac mae miloedd o'u cefnogwyr yn byw yng Nghymru. Ond faint ohonynt sy'n gwybod mai Newton Heath oedd enw gwreiddiol y clwb? Faint ohonynt all enwi'r Cymry a fu'n chwarae i'r clwb yn ystod y ganrif ddiwethaf a chyn hynny?
9781847712974	Tacsi I Hunllef *Llyfr Cymraeg*	Gareth F. Williams	Stori gyffrous a gafaelgar yn y gyfres Stori Sydyn.
9781847712981	Mefin – I Gymru yn ol *Llyfr Cymraeg*	Mefin Davies, Lynn Davies	Mae'r llyfr hwn yn egluro pam fod Mefin Davies, bachwr rhyngwladol Cymru a Chymro balch, wedi gorfod chwarae yn Lloegr. Cawn glywed am y ffordd y cafodd ei drin gan Undeb Rygbi Cymru a'r timau rhanbarthol yn y cyfnod cyn iddo symud.
9781847714077	Hunllef *Llyfr Cymraeg*	Manon Steffan Ros	Mae dyn yn dychwelyd i'r dref lle cafodd ei fagu ar ôl i'w briodas chwalu i gychwyn pennod newydd yn ei fywyd. Mae wedi dioddef hunllefau ers blynnyddoedd – a daw'r hunllefau'n amlach ar ôl iddo symud i fflat newydd.
9781847714084	Yr Elyrch – Dathlu'r 100 *Llyfr Cymraeg*	Geraint H. Jenkins	Dyma hanes tymor hynod lwyddiannus yr Elyrch yn 2010-11. Ym mlwyddyn eu canmlwyddiant, mae'r clwb hefyd yn dathlu ei dymor cyntaf yn Uwch Gyngghair Lloegr. Mae'r llyfr yn adrodd hanes y clwb o'r cychwyn yn 1912, pan sefydlwyd Swansea Town.
9781847714091	Tu ol i'r Tiara – Bywyd Miss Cymru *Llyfr Cymraeg*	Courtenay Hamilton, Alun Gibbard	Daeth Courtenay Hamilton i amlygrwydd ar ôl ennill teitl Miss Cymru. Ond mae ei bywyd y tu ôl i'r goron yn wahanol iawn, Mae hi'n athletwraig alluog iawn, mae hi wedi cerdded i'r Arctig, ac mae wedi canu'r anthem genedlaethol pan mae Cymru'n chwarae pêl droed. Mae'r llyfr hwn yn adrodd hanes menyw ifanc annibynnol a phenderfynol iawn.

9781847714107	Cymry yn y Gemau Olympaidd *Llyfr Cymraeg*	John Meurig Edwards	I wlad mor fach, mae Cymru wedi cynhyrchu athletwyr Olympaidd neilltuol iawn ac mae'r llyfr hwn yn ein cyflwyno i sawl un a fu'n llwyddiannus yn eu campau. Cawn gyfle i ddarllen hanes rhai o'n harwyr Olympaidd fel Lynn Davies a Colin Jackson.
9781847716330	Inc *Llyfr Cymraeg*	Manon Steffan Ros	Llun ar y croen, dyna beth yw tatŵ. Ond i'r rhai sy'n dod i stiwdio tatŵs Ows – ac i Ows ei hun – maent yn symbol o rywbeth dyfnach nag addurn inc ar eu croen. Mae gan bawb reswm dros gael tatŵ, a gall y rhesymau hynny fod yn rhai annisgwyl weithiau.
9781847716347	Cymry Mentrus *Llyfr Cymraeg*	John Meurig Edwards	Mae llawer o Gymry'n enwog am fynd ar anturiaethau peryglus ac anodd. A heddiw mae pobl fel Lowri Morgan, Eric Jones, Richard Parks ac Elin Haf Davies yn rhannu'r ysbryd anturus hwnnw.
9781847716354	Meddyliau Eilir *Llyfr Cymraeg*	Eilir Jones	Mae Eilir Jones wedi bod yn pendroni ers amser ac mae wedi dod i'r casgliad ei fod yn byw mewn byd sy'n llawn o bobl wallgof. Mae'n rhannu ei feddyliau â ni yn y llyfr hwn ac mae'n barod i helpu unrhyw un sy'n cael ei boeni gan y bobl hyn. Golwg ddoniol ar gymhlethdodau bach bywyd gan gomeidiwr poblogaidd.
9781847718358	Oswald *Llyfr Cymraeg*	Lleucu Roberts	Mae Oswald yn newyddiadurwr sy'n ysgrifennu ysgrifau coffa i bapurau newydd. Mae'n colli ei waith ar ôl iddo ysgrifennu ysgrif goffa i gariad ei fam. Mae'n byw bywyd unig ac mae ganddo obsesiwn ag angladdau. Dyma hanes ei ymdrechion i ryddhau ei hun o'i obsesiwn.
9781847718365	Foxy'r Llew *Llyfr Cymraeg*	Jonathan Davies, Alun Gibbard	Llyfr sy'n adrodd hanes bywyd a gyrfa'r chwaraewr rygbi poblogaidd Jonathan Davies, sy'n chwarae fel canolwr i Gymru a'r Llewod. Mae'n un o chwaraewyr rygbi amlycaf Cymru gyda bron i 40 o gapiau. Cafodd Jonathan ei ddewis i chwarae i'r Llewod ar eu taith i Awstralia yn 2013.
9781847718372	Gareth Jones – Y Dyn oedd yn Gwybod Gormod *Llyfr Cymraeg*	Alun Gibbard	Llyfr am y newyddiadurwr Gareth Jones o'r Barri a ddaeth i amlygrwydd ar ôl iddo ddatgelu newyn Ukrain yn y 1930au. Bu farw mewn amgylchiadau amheus, ac ynteu'n ddim ond 30 oed.
9781847718389	Aled a'r Fedal Aur *Llyfr Cymraeg*	Aled Sion Davies, Lynn Davies	Dyma stori Aled Siôn Davies, y Pencampwr Paralympaidd. Enillodd fedal aur am daflu'r ddisgen a medal efydd am daflu'r pwysau yng Ngemau Paralympaidd Llundain yn 2012. Yn ddim ond 21 oed, Aled yw un o'r athletwyr ieuengaf yng ngharfan Prydain, ac un o'r rhai mwyaf llwyddiannus.
9781849674003	No Place to Call Home	Llinos Dafydd, Katey Pilling	Plant, teuluoedd, cyplau – gall unrhyw un fod yn ddigartref. Darllenwch y stori bersonol, ddiddorol ac emosiynol am brofiadau Katey Pilling o fod yn ddigartref fel plentyn ac fel oedolyn. Mi all ddigwydd i unrhyw un, hyd yn oed chi!
9781849674010	Words Apart – Triumphs over Dyslexia	Llinos Dafydd	Gall diagnosis o ddyslecsia achosi pryder a dryswch. Mae'r llyfr ysbrydoledig hwn yn rhannu storïau calonogol pobl yng Nghymru sydd wedi canfod ffyrdd creadigol o ymgodymu â'r cyflwr. Dywed rhai hyd yn oed fod eu dyslecsia wedi eu helpu i fod yn fwy llwyddiannus.
9781849674065	Reset your Goals	Jos Andrews	Peidiwch â phoeni am eich methiannau, poenwch am y cyfleoedd rydych yn eu colli drwy beidio mentro. Dyma lyfr lle mae sêr o'r byd chwaraeon yn sôn am ddelio â llwyddiant a siom. Y neges gyffredin yw peidiwch â digalonni os cewch siom, codwch ac ewch amdani eto. Yng ngeiriau'r enillydd medal aur Olympaidd Lynn Davies 'Os yw am fod, mae'n fy nwylo i'.
9781849674072	Music to Make Friends by – A Life Loving Pop Music	Hayley Long	Mae 'Music to Make Friends By' yn hunangofiant doniol a fydd yn codi eich calon. Mae'n sôn am yr adegau hynny sy'n newid eich bywyd a'r cyfeillgarwch sy'n digwydd o ganlyniad i gariad at ganu pop. O brynu fy record gyntaf yn 9 oed, i fynd ati gyda ffrind i fod yn DJ yn nhafarnau a chlybiau Caerdydd, mae pob pennod yn llawn cerddoriaeth ac atgofion.

Ar gael i'w brynu mewn llawr o siopau llyfrau, gwiriwch eich siop lyfau leol. Fel arall, gallwch gysylltu â chanolfan ddosbarthu Cyngor Llyfau Cymru i archebu'n uniongyrchol ffôn: 01970 624455 e-bost: dosbarthu.canolfan@books.wales neu ar-lein yn www.gwales.com
Mae e-lyfrau ar gael mewn fformat E-pub neu Kindle

Gallwch weld manylion mwy o deitlau sydd ar gael i'w archebau ar-lein gan yr Asiantaeth Ddarllen a rhai apps ar lein ar gyfer manwerthu a darllen. *Gall prisiau amrywio yn dibynnu ar y gwerthwr.



Templed

Templed

Templed i Ddarllenwyr i gofnodi a gadael adborth byr.

[illegible]

Templed

Templed Adborth i'w ddychwelyd at

TUC a Stori Sydyn

F.A.O. Angharad Halpin Wales TUC, 3rd Floor, 1 Cathedral Road, Cardiff CF11 9SD

Wales TUC uses returned feedback forms to continue to support the Quick Reads initiative and to highlight their use in the workplace.

Teitl y Llyfr	Sylwadau a Gasglwyd
Enw'r Cynrychiolydd/Dyddiad	Gweithle



© 2019 Cyngor Llyfrau Cymru a TUC Cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Gellir darparu holl gyhoeddiadau'r TUC ar gyfer darllenwyr â dyslecsia neu nam ar eu golwg mewn fformat hygrych, ar gais, heb gost ychwanegol.

Bydd yr arweiniad hwn yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd, felly byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar sut y gellid ei wella. Gadewch i ni wybod os ydych chi'n sylwi ar unrhyw beth sydd wedi dyddio, sy'n aneglur, neu y credwch sydd angen ei gywiro neu ei ddiweddarau.

Cysylltwch ag: Angharad Halpin

e: wtuc@tuc.org.uk Ff: 029 2034 7010

Cyhoeddwyd gan:
Wales TUC Cymru,
1 Cathedral Road,
Cardiff CF11 9SD
www.tuc.org.uk/wales

Am ragor o wybodaeth am ddeunyddiau Cyngor Llyfrau Cymru, cysylltwch ag:

Angharad Sinclair

e: angharad.sinclair@books.wales Ff: 01970 624 151

Rheolwr Prosiect Hyrwyddo Darllen
Cyngor Llyfrau Cymru
Castell Brychan
Aberystwyth, Ceredigion
SY23 2JB